

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /  
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee  
Cymru Sero Net / Net Zero Wales  
NZ07  
Ymateb gan EDF Renewables / Evidence from EDF Renewables



### **Barn EDF Renewables ar Gynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru**

Diolch am y cyfle i fynegi ein barn ynghylch Cynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru wrthy ch chi a'ch cydweithwyr ar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Mae cyflwyniad un dudalen EDF Renewables ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Yn sgil COP26, mae hwn yn ymgynghoriad pwysig wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer ein dyfodol ynni glân a deddfu cynlluniau a fydd yn cyflawni sero net a blaenoriaethau hinsawdd ac amgylchedd Cymru.

EDF yw cynhyrchedd trydan carbon isel mwyaf y DU. Ein nod yw brwydro yn erbyn newid hinsawdd, ac rydym ni'n teimlo'n angerddol dros greu dyfodol sero net lle mae ynni glân yn pweru ein bywydau. Rydym ni wrthi'n helpu Cymru i bontio i sero net trwy adeiladu dyfodol ynni craffach gan ddefnyddio ein portffolio cynyddol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gan gynnwys gwynt ar y tir ac ar y môr, cynhyrchu ynni solar, a storio batris.

Ar hyn o bryd mae EDF Renewables yn gweithredu 2 fferm wynt ar y tir yng Nghymru; Cemaes ym Machynlleth (15 MW) a Llangwryfon ger Aberystwyth (9 MW). Yn ogystal â hynny, rydym ni wrthi'n datblygu Garn Fach ym Mhowys a fydd â capasiti o oddeutu 85 MW; rydym ni wedi sicrhau dau gysylltiad grid 50 MW ger Abertawe a Chasnewydd sydd i'w defnyddio i storio batris; a, byddwch yn gwybod, fel Aelod dros Ogledd Cymru, ein bod wedi caffael yn ddiweddar gan ddatblygwr blaenorol, fferm solar â chaniatâd 50 MW ym Mhorth Wen, Ynys Môn, gyda'r potensial i gynnal cerbydau trydan.

Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad cryf i ddatblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn datblygu piblinell sylweddol o brosiectau yn y dyfodol gan gynnwys 500 MW o wynt ar y tir a 500 MW o bŵer solar. Yn ôl ymchwil annibynnol, bydd ein piblinell yn creu ac yn cynnal dros 2,000 o swyddi, yn datgloi dros biliwn o bunnoedd o fuddsoddiad yng Nghymru, yn darparu mwy na chan miliwn o bunnoedd trwy ein cynlluniau Budd Cymunedol, yn ogystal â chefnogi a datblygu busnesau a chadwyni cyflenwi lleol.

Mae'r gwaith hwn yn ategu ac yn cefnogi'r uchelgais a fanylir yn nogfennau Llywodraeth Cymru o'r enw 'Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2' a 'Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net: cynllun Cymru gyfan.' Mae llawer yn y ddwy ddogfen sy'n cael ei groesawu gan EDF Renewables, y byddaf yn manylu arnynt yn yr atodiadau.

Fodd bynnag, wrth symud ymlaen ar ein huchelgeisiau a rennir trwy gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy angenrheidiol, erys nifer o faterion craidd sy'n peri pryder wrth bwysio a mesur sut y bydd cynlluniau o'r fath yn cyflawni targedau, ac yn wir yn cynyddu'r cyfle a gyflwynir i gymunedau, yr hinsawdd a'r economi.

Wrth ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, ein nod yw rhoi dealltwriaeth i'r Pwyllgor pwysig hwn o safbwynt datblygwr sy'n ymroddedig i weithio i Gymru, i gymunedau Cymru ac i'w dyfodol.

Unwaith eto, diolch am y cyfle i ymateb gyda'n barn i'r ymgynghoriad hwn ac mae EDF Renewables yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch cydweithwyr ar waith pwysig y Pwyllgor trwy gydol y Chweched Senedd.

## Seilwaith grid

- Mae pob datblygwr ynni adnewyddadwy yn cytuno, mae diffyg capasiti grid digonol yn rhwystr allweddol sy'n atal defnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru ymhellach.
- Mae pryder ymhlith y diwydiant y bydd Cymru y tu ôl i weddill y DU o ran cyflawni'r targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi, ac o ran cyflawni sero net yn yr amserlenni penodol.
- Rydym ni'n cefnogi'n gryf y datganiad canlynol a wnaed ar dudalen 60 o'r ddogfen 'Cyllideb Garbon 2':

*o Y rhwystr sylweddol arall yw'r angen am fuddsoddiad grid strategol. Rydym ni'n gweithio gyda'r gweithredwyr rhwydwaith i egluro maint y buddsoddiad sy'n ofynnol ond ni ddylai'r costau hyn i gyd ddisgyn ar y rhai sy'n talu'r biliau. O ystyried cyflymder y newid sydd ei angen a'r amser a gymerir i gydsynio ac adeiladu seilwaith grid, mae rhoi buddsoddi o flaen angen yn gwbl hanfodol.*
- Heb fuddsoddiad na chynlluniau i adeiladu gwytnwch a chapasiti mewn seilwaith grid ledled Cymru, mae'n bosibl na fydd datblygiadau a gynlluniwyd - gan gynnwys y rhai yn y Môr Celtaidd - yn cael eu gwireddu ar y raddfa a'r cynhyrchiad a fwriadwyd. Yn ogystal, gallai buddion y datblygiadau hyn gael eu cyfeirio trwy Loegr, sy'n golygu nad yw Cymru yn gweld dim o'r elw economaidd.
- Mae mater y grid yn broblem uniongyrchol a hefyd yn rhwystr tymor hir, sy'n cynnwys ac yn atal potensial economaidd Cymru.

## Targedau ynni

- Mae EDF Renewables yn cefnogi'n gryf y targed a amlinellir yn y datganiad uchelgais cynhyrchu trydan a gwres sy'n dweud "erbyn 2025, bydd capasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol o 1GW wedi'i osod."
- Fel rhan o'n hymrwymiad cryf i Gymru, byddai ein targed o 1GW o ynni adnewyddadwy - 500MW mewn gwynt ar y tir a 500MW o solar - erbyn 2030, yn ôl ein hamcangyfrifon a ddilyswyd yn annibynnol, yn datgloi mwy na £1bn o fuddsoddiad yn economi Cymru a £100m o fuddsoddiad yn uniongyrchol mewn cymunedau.
- Er mwyn anelu at y targed o 2025, rhaid ystyried cynllunio, seilwaith grid a llwybrau i'r farchnad. Er mwyn i economi Cymru elwa o darged 2025, rhaid rhoi ystyriaeth ehangach hefyd i gadwyni cyflenwi lleol, capasiti mewn busnesau lleol a datblygu llwybrau sgiliau ac addysg sydd eu hangen i gefnogi pob cam datblygu.
- Fel rhan o'n Strategaeth Gymunedol, rydym ni'n rhoi rhwymedigaethau ar waith gyda'n partneriaid cytundebol trwy gydol pob cam datblygu, lle rydym ni'n defnyddio'r economi leol i sicrhau bod buddion yn cael eu cadw yng Nghymru. Ond wrth wneud hynny, rydym ni'n dod ar draws materion capasiti, sgiliau a chadwyn gyflenwi yn rheolaidd.
- Mae gan bob prosiect ei heriau unigryw. Wrth inni symud ymlaen gyda datblygiadau, rydym ni'n gweithio'n agored ac yn uniongyrchol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid lleol i oresgyn y rhain, gan roi cynlluniau ar waith sydd o fudd uniongyrchol i economïau a chymunedau lleol.
- Felly, yn ein cefnogaeth gref i darged 2025, rydym ni'n bwriadu annog y Pwyllgor i ystyried y targed hwn fel cyfle i hyrwyddo gweithio gyda'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion ehangach yn niwydiant ynni adnewyddadwy Cymru.

## Cyflawni Sero Net

- Rydym ni'n cefnogi bwriad y datganiad canlynol, tudalen 54:

*o Mae darparu'r system ynni craff sydd ei hangen arnom gan ddefnyddio dull a gynlluniwyd yn rhanbarthol, yn hytrach na dull o'r brig i lawr, a yrrir gan y farchnad, yn fwy tebygol o alluogi cyflawni ar y cyflymder y mae'r argyfwng hinsawdd yn mynnu, ar y gost orau bosibl i'r system, ac mewn ffordd sy'n darparu system fwy cymdeithasol gyfiawn heb fod unrhyw bobl na lleoedd yn cael eu gadael ar ôl.*
- Fodd bynnag, mae angen strategaeth gyffredinol i Gymru ar gyfer y dull hwn gyda thargedau tymor hir ar gyfer 2030 a thu hwnt. Bydd angen i'r canlyniad alluogi ehangu sylweddol ar y gallu cynhyrchu adnewyddadwy, i ateb y galw cynyddol am drydaneiddio gwres a chludiant.
- Rhaid hefyd ystyried ymhellach y "dull rhanbarthol" fel rhan o'r strategaeth gyffredinol, yn enwedig wrth werthfawrogi sut y gellir defnyddio cyfoeth ac amrywiaeth ffynonellau adnewyddadwy ledled Cymru orau, a gwasanaethu cymunedau sy'n rhoi cartref iddynt orau. Ni fyddai'n gwasanaethu Cymru pe bai un rhanbarth yn tansellio rhanbarth arall.